# CYNGOR GWYNEDD

## ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 14 Chwefror, 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies,<br>Aelod Cabinet Economi & Chymuned |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Economi & Chymuned |

### 1. CYFLWYNIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Economi & Chymuned. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r tîm rheoli Economi, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.

1.3 Ar y cyfan, rwy'n hapus gyda pherfformiad y mwyafrif o'r prosiectau a'r mesurau neu fod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn gwella perfformiad.

## 2. PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo ail broffilio gwireddu'r cynllun arbedion effeithlonrwydd 'EaCh9a - Neuadd Buddug' (£16,000) o'r flwyddyn ariannol 2017/18, £9,330 yn 2018/19 a £6,670 yn 2019/20. (Gwybodaeth bellach yn rhan 6 o'r adroddiad hwn).

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a'n bod yn ymateb yn rhagweithiol i'r angen i fod yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn unol â'r disgwyl

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

### 4.1. T1 Swyddi Gwerth Uchel ac o ansawdd

4.1.1. Pwrpas y prosiect yma yw gweithio'n rhagweithiol er mwyn creu'r amodau cywir i ddatblygu swyddi gwerth uchel ac o ansawdd o fewn Gwynedd.

4.1.2 Ers i mi adrodd tro diwethaf, mae'r prosiect wedi ymgysylltu a chwmni Horizon ac arwain ar ymateb y Cyngor i ail ymgynghoriad ffurfiol Wylfa Newydd, sef yr ymgynghoriad ffurfiol olaf ar y datblygiad. Mae'n deg dweud fy mod wedi siomi gyda'r diffyg newid i gynigion Horizon o ganlyniad i'r adborth a ddarparwyd yn 2014. Fel rhan o'r ymateb yma, rwyf wedi gofyn i'r Adran rhoi pwysau ar Horizon i ystyried oblygiadau adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd i Ogledd Cymru gyfan, a gofyn iddynt ymgynghori ymhellach ac yn fwy cynhwysfawr a'r Cyngor a phartneriaid eraill er mwyn adnabod y sgil effeithiau a mesurau lliniaru. Rydym yn disgwyl ymateb gan Horizon i'r pwyntiau a godwyd.

4.1.3 Mae trafodaethau yn parhau gyda nifer o ddatblygwyr ynglŷn â denu cwmnïau a buddsoddiadau i'r Sir. Mae'r hwb digidol sydd yn cael ei greu yma ar hyn o bryd yn denu swyddi cyffrous i'r ardal. Mewn ymgais i gael gwell dealltwriaeth ar y mathau o swyddi sydd wedi'i denu i'r ardal, gofynnais i'r Adran wneud dadansoddiad o'r **swyddi gwerth uchel sydd wedi'i creu (Uchel07)** hyd yma, gan nodi'r sectorau a'r ardaloedd. Gweler **Atodiad 1** am fanylion pellach. Beth mae'r dadansoddiad yma yn ei ddangos yw bod rhan helaeth o'r swyddi hyd yma wedi'i creu yn y sector digidol yn ardal Arfon, a hynny yn bennaf oherwydd clwstwr digidol sy'n bodoli yn ardal Bangor ym Mharc Menai.

### 4.2. T2 Cadw'r Budd yn Lleol

4.2.1 Pwrpas y prosiect yma yw uchafu gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol. Mae dwy agwedd i'r prosiect sef gosod trefn gaffael gwasanaethau a nwyddau newydd yn y Cyngor a chefnogi busnesau i gystadlu ac ennill cytundebau'r Cyngor a thu hwnt.

4.2.2 **Rheolaeth Categori :** Mae'r Tîm Categori Pobl bellach yn cefnogi cynlluniau sy'n anelu i arbed £900,000. Yn ogystal, mae Rheolwyr Categori'r meysydd Amgylchedd a Corfforaethol wedi eu penodi ym mis Rhagfyr.

4.2.3 **Uchafu Gwariant Busnesau Lleol:** Rydym wedi comisiynu cwmni Menter a Busnes i drefnu sesiynau 'Adolygiad Iechyd Busnes' gyda 8 darparwr o Wynedd wedi manteisio ar y cyfle. Mae'r adolygiad a chefnogaeth yn ceisio darganfod meysydd gwella i gefnogi'r darparwyr i fod yn fwy cystadleuol.

4.2.4 Mae gwaith wedi mynd rhagddo er mwyn cynyddu cefnogaeth i gyfleoedd tendro gyda chefnogaeth uniongyrchol wedi ei ddarparu i 11 o blymwyr trwy'r fframwaith plymwyr

4.2.5 Yn ogystal, fel rhan o'r Fframwaith Gofal Cartref Rhanbarthol mae'r Tîm Categori Pobl wedi trefnu cyfarfodydd gyda'r farchnad leol i ddatblygu'r fframwaith a chynnal sesiwn briffio cychwynnol. Yn ystod mis Rhagfyr mynychodd 12 darparwr weithdy eDendro.

**4.3. T3 Gwynedd Digidol**

4.3.1 Pwrpas y prosiect yw cefnogi ymdrechion i drawsnewid defnydd busnesau, gwasanaethau a thrigolion Gwynedd o dechnoleg drwy sicrhau bod darpariaeth o fand eang cyfoes ar draws y sir.

4.3.2 Rwy'n falch o gael nodi bod band eang cyflym bellach ar gael i 78.2% o eiddo yng Ngwynedd sydd yn uwch na'r siroedd cyffelyb (Ceredigion, Powys, Sir Gar). Yn ogystal, mae'r canran sy'n tanysgrifio i fand eang cyflym yng Ngwynedd yr uchaf yng Nghymru (36.77%). Yn ogystal, mae'r **nifer y busnesau sydd yn adrodd iddynt ddefnyddio technoleg o ganlyniad i ymyrraeth (YRE1)** wedi dyblu ers i mi adrodd tro diwethaf (36 o fusnesau - Ionawr 2017).

4.3.3 Er bod y ffigyrau uchod i'w llongyfarch, rwy'n awyddus i'r prosiect ystyried beth yw gwir effaith ar fusnesau sydd wedi defnyddio technoleg, ond hefyd i ystyried sut gellir targedu'r busnesau hynny sydd ddim yn defnyddio technoleg. O ganlyniad, rwyf wedi gofyn i'r prosiect ganolbwyntio ar yr elfennau am y misoedd nesaf ac felly bydd modd i mi adrodd ar yr effaith yn fy adroddiad nesaf i chi.

**4.4. T4 Cynllun Arloesi Gwynedd Wledig**

4.4.1 Pwrpas y prosiect yma yw creu'r amodau i gryfhau sail economi wledig Gwynedd gan annog mentrau lleol i sefydlu a datblygu er mwyn cynnal cyflogaeth. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy Arloesi Gwynedd Wledig - LEADER Rhaglen Datblygu Wledig.

4.4.2 Bu'r prosiect yn llwyddiannus o **ddenu gwerth £128,000 o fuddsoddiad i ddatblygu mentrau gwledig arloesol yng Ngwynedd ( Mesur GW01)**. Mae hwn yn arian i fentrau cymdeithasol i'w galluogi i brif ffrydio pwyntiau/ offer cyfrifiadurol ar draws y Sir.

4.4.3 Bellach mae 24 o brosiectau peilot wedi derbyn cefnogaeth drwy raglen LEADER yn y Sir. Byddwn yn annog chi i edrych ar y fidio yma (<https://youtu.be/_LiQMCnJFSg>) er mwyn cael blas ar uchafbwyntiau prosiectau a barn pobl Gwynedd sydd wedi bod yn rhan ohonynt.

4.4.4 Er bod y prosiect wedi bod yn gweithredu rhaglen waith Cynllun Cyflogaeth Llyn ac Eifionydd, teimlaf fod lle i roi mwy o bwyslais ar ymateb. Rwyf wedi gofyn i'r Adran ganolbwyntio ar hyn, ynghyd a diffinio'r pwrpas y prosiect yn gliriach er mwyn cael eglurdeb ar brif flaenoriaethau'r Sir i'r dyfodol.

**4.5. T5 Safle Treftadaeth y Byd**

4.5.1 Pwrpas y prosiect hwn fydd creu budd economaidd o dreftadaeth gyfoethog Gwynedd. Byddwn yn canolbwyntio ar Safleoedd Treftadaeth Byd presennol ac

yn cyflwyno achos am statws Safle Treftadaeth y Byd presennol ac yn cyflwyno achos am statws Safle Treftadaeth y Byd i rannau o'r dyffrynnoedd llechi.

4.5.2 Mae dyddiad cau ar gyfer llunio cais I UNESCO I ennill statws safle treftadaeth y byd i'r diwydiant llechi wedi bennu ar gyfer Medi 2017. Mae'r gwaith o lywio penderfyniadau ynglŷn â'r enwebiad, a diffinio ffiniau'r cais yn parhau gan Gomisiwn Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd a chonsortiwm Govannon. Gan gofio bod yna raglen waith trwm i'w chyflawni mewn ychydig o fisoedd, rwyf am i'r prosiect bwyso ar yr ymgynghorwyr i weithredu i'r amserlen sydd wedi'i osod er mwyn cytuno ar natur yr enwebiad.

4.5.3 Rwy'n teimlo bod gennym ni fwy o waith i'w wneud i farchnata'r enwebiad yn lleol, a nawr bod natur yr enwebiad yn aeddfetach, rwyf wedi gofyn i'r prosiect ganolbwyntio ar ddatblygu cynllun cyfathrebu a brand er mwyn codi ymwybyddiaeth yn yr ardaloedd perthnasol.

4.5.4 Mae gwaith datblygu yn parhau gyda phrosiect Glannau Menai, gyda llythyr cynnig grant gwerth £2.1miliwn o gyllideb Llywodraeth Cymru wedi ei dderbyn ym mis Rhagfyr ar gyfer y gwaith. Mae'r prosiect yn dal i ddisgwyl cymeradwyaeth arian Ewrop.

### 4.6. T6 Gwella Mynediad pobl y sir i waith ac ymateb i rwystrau

4.6.1 Pwrpas y prosiect hwn fydd hwyluso a gweithredu pecyn o brosiectau er mwyn cefnogi unigolion bregus i mewn i waith. Mae'n brosiect rhanbarthol trwy waith Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru gyda Gwynedd wedi bod yn cyfrannu tuag at gomisiynu'r gwaith.

4.6.2 Ers i mi adrodd i chi tro diwethaf, mae'r prosiect wedi rhoi cefnogaeth i 86 o unigolion bregus, gan eu cefnogi i ddod o hyd i waith. Bydd prosiect Opus yn cychwyn yn fuan, ac yn cynnig cefnogaeth ar gyfer unigolion gydag anableddau dysgu neu broblem iechyd meddwl.

### 4.7. T7 Digwyddiadau Proffil uchel a Strategol

4.7.1 Pwrpas y prosiect hwn yw denu digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol i Wynedd er mwyn manteisio ar y budd economaidd a chymdeithasol fydd yn deillio o hyn.

4.7.2 Mae'r prosiect wedi rhoi cymorth i 18 o ddigwyddiadau yn ystod 2016/17 ac mae'r rheiny wedi cymryd lle erbyn hyn. Mae'r **digwyddiadau hyn wedi dod a £6.6m o fudd economaidd i'r ardal (Mesur TMGC4)**, gyda 292 o swyddi wedi'i diogelu yn y Sir o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn.

4.7.3 Rwyf wedi gofyn i'r prosiect ganolbwyntio ar adlewyrchu effaith y digwyddiadau ar blant a phobl ifanc gan nad yw'r prosiect yn dal y wybodaeth honno ar hyn o bryd.

## 5. MESUR PERFFORMIAD

5.1. Mae **Atodiad 2** yn adrodd ar fesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at rai o'r mesurau wrth drafod y prosiectau uchod.

5.2 Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi bod yn adolygu eu pwrpasau a'u mesurau yn ddiweddar, a bydd fersiwn newydd o'r mesurau hyn yn cael eu

cynnwys yng nghynllun busnes yr adran ar gyfer 2017-18. Fodd bynnag, gan fod gwaith yr adran yn eang a ddim yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn rhestr gyfredol mesurau, rwyf yn awyddus i roi blas i chi ar rhai o'r mesurau sy'n cael eu hadrodd gan bob gwasanaeth.

5.3. Mae'r **Gwasanaeth Cefnogi Busnes** yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i fusnesau er mwyn iddynt sefydlu, bod yn gystadleuol a datblygu yng Ngwynedd. **Mae nifer o swyddi wedi eu creu gyda chymorth yr adran (PENECON1)** yn 38 hyd at ddiwedd Rhagfyr 2016, o'i gymharu â 81 yn 2015/16 a 234 yn 2014-15. Mae hyn yn unol â'r disgwyl wrth i ni weld y rhaglenni sylweddol megis y Gronfa Fuddsoddi Leol sydd wedi bod yn darparu grantiau ar gyfer busnesau yn dod i ben yn ystod y cyfnod.

5.4 Teimlaf fod gwaith pellach i'w wneud gan yr Uned i ddal profiadau'r busnesau maent yn gweithio gyda hwy, ac efallai bod hwn yn rhywbeth dylid ei ystyried ar draws y Cyngor. Mae cael un pwynt cyswllt yn y Cyngor ar gyfer busnesau Gwynedd hefyd yn fater rwyf wedi gofyn i'r gwasanaeth ei ystyried.

5.5 Mae'r **Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig** yn ceisio sicrhau adnoddau diogel o ansawdd yn ein parciau gwledig, harbyrau, marinas ac ar draethau Gwynedd. Mae'r uned yn gyfrifol am reoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 9 o draethau baner las, 4 o harbyrau a 2 hafan gan gynnwys Hafan Pwllheli sy'n cynnig llety i 700 o gychod. Rwy'n falch o ddweud bod **canran o geisiadau Baner Las Rhyngwladol yn llwyddiannus** yn 100% flwyddyn hon.

5.6 Pwrpas y **Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau** yw uchafu budd a gwerth i economi Gwynedd o ymwelwyr. Mae'r Uned yn gyfrifol am wefan Eryri Mynyddoedd a'r Môr ac un o'r prif fesurau'r uned yw **Cynnydd nifer o ymwelwyr i wefan Eryri Mynyddoedd ac Mor (TMGC5).** Gwelir cynnydd yn o 30% yn ffigyrau nifer ymwelwyr i'r wefan flwyddyn ariannol yma i 815,675 o'i gymharu â 626,498 adeg yma flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adran yn casglu gwybodaeth ynglŷn â'r canran o ymwelwyr sy'n ymweld â'r ardal o ganlyniad i dderbyn cyhoeddiadau marchnata Eryri Mynyddoedd ac Mor, ond yn adrodd ar hyn yn flynyddol felly bydd posib i mi ymhelaethu ar hyn tro nesaf byddaf yn adrodd.

5.7 Mae'r **Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau** yn rhedeg dwy amgueddfa yng Ngwynedd ac yn gyfrifol am edrych ar gasgliadau a chreu arddangosfeydd yn y ddwy, sef: Storiel ac Amgueddfa Lloyd George. Mae llawer o waith y maes yn targedu prosiectau iechyd, lles, addysg a thaclo unigrwydd. Pwrpas y gwasanaeth yw cyfoethogi bywydau trigolion Gwynedd trwy hyrwyddo dealltwriaeth o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant unigryw. Mae'r adran yn gweithio ar geisio dal effaith a budd eu gwaith a bod hynny yn cael ei adlewyrchu yn eu mesurau.

5.8 Un mater rwyf wedi gofyn i'r adran ei ystyried yw cynyddu amlder casglu data ar fesurau. Mae nifer o'r mesurau yn cael eu hadrodd gan yr Adran yn flynyddol ond rwy'n awyddus iddynt gasglu'r data ac adrodd yn amlach. Edrychaf ymlaen at gael gweld rhestr ddiwygiedig o'r mesurau yng Nghynllun Busnes yr Adran 2017-18.

## 6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

6.1 Rwy'n falch o allu adrodd bod oll o gynlluniau arbedion perthnasol 2016/17 yr adran Economi a Chymuned wedi eu gwireddu. Mae'r Adran hefyd yn gwneud

cynnydd derbyniol iawn tuag at wireddu cynlluniau 2017/18 lle rhagwelir llithriad efo un cynllun yn unig sef Neuadd Buddug.

6.2 O ganlyniad i'r newid yn amserlen agor yr ysgol newydd yn Y Bala, fydd yn cynnwys neuadd at ddefnydd cymunedol, mae'n anorfod bod angen llithro dyddiad cau Neuadd Buddug. Gan bod y llithriad y tu hwnt i reolaeth yr Adran Economi a Chymuned a bod cytundeb rhwng Aelodau Lleol, yr Aelod Cabinet a Ffrindiau Neuadd Buddug na fydd y gwasanaeth yn cau hyd nes bod darpariaeth newydd ar gael yn yr ysgol, argymhellir i'r Cabinet gymeradwyo ail broffilio'r arbediad o £16,000 sy'n deillio o'r cynllun o'r flwyddyn ariannol 2017/18 i 2018/19 a 2019/20.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1. Dim i'w nodi.

## 8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 8.1. Barn y Swyddogion Statudol:

#### i. Y Prif Weithredwr:

"Mae'r adroddiad sydd gerbron yn glir a dealladwy. Efallai bod rhai materion yn teilyngu sylw. Mae'r adroddiad yn agored trwy ddangos gostyngiad yn y nifer o swyddi sydd wedi eu creu gyda chymorth yr adran wedi lleihau (paragraff 5.3) ac efallai y byddai'n fuddiol i'r Cabinet glywed maint y lleihad mewn grant sydd wedi arwain at y dirywiad hwn.

O ran y Gwasanaeth Morwrol, mae'r Pwyllgor Craffu Cymunedau newydd fod yn mynegi pryder am un elfen o'r toriadau ar reolaeth traethau yn y maes hwn a gwn bod yr Aelod Cabinet wedi cytuno i gais y Pwyllgor Craffu i edrych ar hynny.

O ran y cais i ail-broffilio arbediad Neuadd Buddug, mae'n swm cymharol fychan ond, yn amlwg, bydd angen pontio'r diffyg bychan hwnnw mewn rhyw ffordd."

#### ii. Y Swyddog Monitro:

"Dim sylw o ran priodoldeb."

#### iii. Y Pennaeth Cyllid:

"Rwyf yn cadarnhau cywirdeb agweddau ariannol yr adroddiad. Mae'n galonogol fod yr Aelod Cabinet yn hyderus (yn rhan 6.1 o'r adroddiad) y bydd gwasanaethau'r Adran yn gwireddu mwyafrif llethol o'r cynlluniau arbedion yn amserol, a credaf fod yr cais i ail-broffilio un cynllun arbedion yn rhesymol."

### 8.2. Barn yr Aelod Lleol:

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

### 8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

8.3.1 Dim i'w nodi.

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** **Dadansoddiad Swyddi Gwerth Uchel**

**Atodiad 2** **Mesurau Adran Economi & Chymuned**